



Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
30 Ebrill 2025 @ 09:00-11:00 Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Y Cynghorydd Lis Burnett (LB)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Tom Bowring (TB)	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol	Cyngor Bro Morgannwg
Estelle Hitchon (EH)	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Rob Thomas (RT)	Prif Weithredwr	Cyngor Bro Morgannwg
Estella Enos (EE)	Uwch Reolwr Cymorth Gweithredol / Dirprwy Bennaeth	Gwasanaeth Prawf Cymru
Rachel Connor (RC)	Prif Swyddog Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Deborah Gibbs	Arweinydd Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Cyngor Bro Morgannwg
Sarah Tipping	Pennaeth Partneriaethau ac Ymgysylltu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Sian Griffiths	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Andy Robinson	Arweinydd Tîm Pobl a Lleoedd, Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Lee Jones	Prif Weithredwr a Swyddog Monitro	Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Martin O'Keefe	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ayla Cosh	Cyfarwyddwr Clinigol	Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro
Cath Doman	Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Anna Graham	Rheolwr Gwellu Gwasanaethau ar gyfer Anabledd Dysgu, Cynhwysiant Iechyd ac Iechyd Meddwl	Cyngor Caerdydd
Elizabeth Jones	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Hefyd yn bresennol:		

Helen Moses (HM)	Rheolwr Gweithredol Strategaeth a Mewnwelediad	Cyngor Bro Morgannwg
Dafydd Sedgwick (DS)	Intern Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Fisher Lloyd (FL)	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Mewnwelediad	Cyngor Bro Morgannwg
Andreas Pieris-Plumley	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Miki Miyata-Lee (MML)	Uwch Swyddog – Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymddiheuriadau:		
Claire Beynon	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Suzanne Rankin	Prif Weithredwr	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Judith Cole	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru
Karen Lamprey	Pennaeth Cynorthwyol Cwricwlwm	Coleg Caerdydd a'r Fro
David Letellier	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhif	Eitem Agenda	
1.	Croeso a Chyflwyniadau - Lis Burnett, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	
2.	Ymddiheuriadau am Absenoldeb - Andreas Pieris-Plumley, Swyddog Polisi, Cyngor Bro Morgannwg	
3.	Economi Llesiant - Rob Thomas - Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg Esboniodd RT fod yr eitem yn codi ar y trafodaethau o gyfarfod diwethaf y BGC a oedd yn weithdy sy'n canolbwyntio ar yr economi llesiant. Cytunwyd y byddai partneriaid BGC yn ystyried sut y gellid alinio gwaith orau ag egwyddorion economi llesiant. Amlinellodd RT y Cyflog Byw Gwirioneddol fel enghraifft o'r gwaith hwn. Ceisiodd Cyngor Bro Morgannwg achrediad gan Cynnal Cymru a amlygodd fod y sefydliad mewn sefyllfa dda i ddechrau achredu a bod ganddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith ar gyfer y ddwy raddfa gyflog isaf. Mae Cynghorau Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr wedi'u hachredu ar hyn o bryd ac mae Cynnal Cymru yn ceisio achredu mwy o Awdurdodau Lleol. Yr her yw sicrhau bod contractwyr trydydd parti yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae Cyngor Bro Morgannwg wedi dechrau dadansoddi graddau cyflog staff asiantaethau er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn. Nododd LB fod y pwnc yn cael ei drafod yn ystod cyfnod 10^{fed} pen-blwydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.	

	Nododd EH fod yr Ymddiriedolaeth Ambiwylans yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol ond heb ei achredu, felly maent yn dechrau cael trafodaethau ar bwysigrwydd achredu. Cwestiynodd EH a allai achrediad helpu gyda recriwtio. Esboniodd RT mai recriwtio a chadw oedd rhai o'r ffactorau gyrru y tu ôl i Gyngor Bro Morgannwg ddechrau'r broses achredu, gan fod y sefydliad yn cyflogi dros 5,000 o staff, gyda'r rhai ar gyflog isaf yn tueddu i fod yn fenywod. Dywedodd RT fod y Cyngor yn teimlo ei bod yn neges bwysig i fod yn cynyddu'r cyflogau hyn. Nododd EH fod costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chyfraniadau cyflogwr Yswiriant Gwladol cynyddol yn ei gwneud hi'n anoddach cynyddu cyflogau oherwydd y baich ariannol cynyddol. Nododd LB fod Cyngor Bro Morgannwg eisoes yn gyflogwr cyflog byw ond mae'n bwysig sicrhau bod partneriaid hefyd yn rhan o gael achrediad. Dywedodd RC fod cynnydd mewn Yswiriant Gwladol yn effeithio ar y trydydd sector gyda sefydliadau'n dechrau achredu, ond mae contractwyr allanol yn creu mwy o her. Dywedodd RT fod Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio mapio sgiliau ar draws y Cyngor a chadw talent drwy recriwtio pobl ifanc, ac i weithio gyda sefydliadau lleol i ddarparu cyfleoedd a phrentisiaethau. Esboniwyd bod cais wedi'i gyflwyno i CFFG i ddeall bylchau rhwng capasiti sgiliau yn yr ardal a'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau i hyrwyddo cyflogaeth leol i bobl sy'n gadael yr ysgol leol. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, mae'r tîm cymorth cyflogaeth wedi helpu 500 o bobl i gael cyflogaeth a dros 2,000 i gael hyfforddiant neu brofiad gwaith. Mae ymchwil yn dangos bod 70% o bobl awtistig yn ddi-waith yn genedlaethol ac mae meddwl am sut y gall ein sefydliadau helpu gyda hyn yn bwysig.	
4.	Diweddariad ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - Cath Doman, Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Dywedodd CD fod y BPRh yn gweithio i wella gwasanaethau iechyd a gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei orchymyn i gynnal Asesiad o Anghenion y Boblogaeth bob 5 mlynedd sy'n eistedd ochr yn ochr ag asesiadau llesiant y BGC. Mae'r rhain yn llywio'r Cynllun Ardal ar y Cyd 5 mlynedd. I roi gwybod am gynnydd yn erbyn y cynllun hwn, mae'r BPRh yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Bro Morgannwg perthnasol. Esboniodd CD fod y Rhaglen yn y Cartref yn ei thrydedd flwyddyn. Mae'r system gofal cymunedol integredig yn ymwneud â chefnogi pobl i aros yn iach ac yn annibynnol yn eu cymunedau, gan bwysleisio mynediad lleol at asedau lleol. Wrth i bobl dyfu'n hŷn ac yn fwy bregus, mae angen cefnogaeth amlach a dwys arnynt, mae ein sefydliadau'n gweithio i ddiwallu anghenion yr unigolion hyn a dylent symud y pwyslais ar gydbwysedd i weithio yng nghartrefi pobl trwy atal sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn hytrach nag mewn ysbytai. Rhaid i waith sylweddol i symud gwasanaethau	

	tuag at gymunedau sicrhau gwasanaethau cydgysylltiedig yn hytrach na mewn seilos. Eglurodd CD hefyd fod y rhaglen dementia yn rhan helaeth o waith BPRh. Mae llawer o sefydliadau sy'n deall dementia wedi datblygu ar draws y Fro, ac mae'r gwaith hwn wedi cael ei arwain gan grwpiau llywio ledled y rhanbarth. Mae'r her gaeaf 50 diwrnod yn enghraifft o'r ymyriadau yn y Fro. Cwestiynodd CD a oes cyfleoedd i weithio'n agosach gyda'i gilydd a nododd bwysigrwydd y gofod digidol ar gyfer cydweithio. Eglurwyd bod y Gwyliwr Gofal Cryno yn cael gwybodaeth am unigolion sy'n defnyddio rhifau'r GIG ac yn delweddu gwybodaeth i helpu ymarferwyr. Fe wnaeth y Gronfa Integreiddio Ranbarthol o £20m roi hwb i'r gwasanaethau presennol a gwella darpariaeth integredig ar draws yr holl wasanaethau. Mae cyllid cyfalaf yn tynnu o gronfa genedlaethol gwerth £70m a Chronfa Tai a Gofal o £8m ar gyfer ein rhanbarth. Hysbysodd CD fod y Gynhadledd BPRh ar Fai 16 yn Y Deml Heddwch, Caerdydd. Nododd RT bwysigrwydd yr ymagwedd a arweinir gan y gymuned a'r agenda ataliol a phwysigrwydd gofal sylfaenol a gofal wrth wraidd y gymuned. Nododd LB fod yr henoed yn dechrau pryderu ynghylch beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig, ac mai pentref y bobl hŷn oedd un o'r unig gamau cynllunio heb unrhyw wrthwynebiadau. Bydd y Porth Gorllewinol yn y Barri a'i gyfleuster Gofal arfaethedig yn helpu i gadw pobl yn annibynnol yn eu cymunedau. Nodwyd y gellid defnyddio sesiynau cymorth ar gyfer sgiliau digidol.	
5.	Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd yng Nghaerdydd a'r Fro - Anna Graham – Rheolwr Gwella Gwasanaethau ar gyfer Anabledd Dysgu, Cynhwysiant Iechyd ac Iechyd Meddwl, Cyngor Caerdydd. Dr Alya Cosh – Cyfarwyddwr Clinigol, Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro, GSCCh Dywedodd AG fod cynhwysiant iechyd yn wasanaeth ymchwil ac agenda bolisi sy'n anelu at ail-fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol eithafol ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol Digartrefedd yn cael ei arwain gan Gyngor Caerdydd. Mae Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro yn Wasanaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol a reolir gan y Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol (GSCCh). Esboniwyd bod olrhain carfan y GIG o 349 o bobl sy'n profi digartrefedd yn cael ei wneud gan ddefnyddio rhifau'r GIG, a chanfuwyd eu bod yn 8 gwaith yn fwy tebygol o fynychu Adran Damweiniau ac Achosion Brys na'r boblogaeth gyffredinol. Esboniodd AG fod casglu data marwolaeth digartref yn gwella dealltwriaeth ar gyfer dylunio gwasanaethau atal. Datgelodd y data, a gasglwyd rhwng 01/01/2020 a 31/03/2025, 122 o farwolaethau. Roedd 95 o farwolaethau gwrywaidd gydag oedran marwolaeth cyfartalog o 46, a 27 o farwolaethau benywaidd gydag oedran marwolaeth cyfartalog o 43. Amlinellodd AG y data meintiol: Mae'r garfan o 349 o bobl wedi ehangu i 462, gan gymharu cyfnodau o 9 mis yn 2023 a 9 mis yn 2024.	

	- Yn 2023, roedd 826 o fynychiadau i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac yn 2024, 660, gan arbed £36,164 trwy ostyngiad o 20% mewn ymweliadau amhriodol. - Yn 2023, treuliwyd 9,926 awr gan y garfan yn yr UB o'i gymharu â 4,966 awr yn 2024, gostyngiad o 50%. - Cafwyd gostyngiad o 15% mewn derbyniadau a gostyngiad o 41% yn hyd yr arhosiad ar gyfer gofal eilaidd. - Osgowyd costau cyffredinol o £402,463 mewn 9 mis o fewn y garfan o ond 462 o bobl. Amlinellodd AG adolygiad sy'n asesu cost gwasanaeth cyhoeddus 25 o bobl sy'n profi digartrefedd. Canfu bod gan 100% gamddefnyddio sylweddau, 92% cyflwr iechyd meddwl, 72% salwch corfforol cronig ac 84% wedi cael eu harestio o leiaf unwaith. Dangosodd yr astudiaeth gost amcangyfrifedig o £50,000 y flwyddyn y pen, sy'n debygol o gael ei danbwysleisio, a bod 3,500 o bobl yng Nghaerdydd angen ymyrraeth arbenigol. Amlinellodd AG y rhaglen llwybr a chatau 1 i 3. Mae'r model wedi'i rannu'n gamau. Ar gyfer cam 1 mae'r gwasanaeth allgymorth i'w weithredu erbyn Gorffennaf 2025 ac mae'r gwasanaeth mewngymorth ar waith Llun-Gwener 8am-4pm. Ar gyfer cam 2, mae gwahanol opsiynau yn cael eu cwmpasu ar gyfer yr hyb gwasanaeth. Mae Cam 3 yn ymarfer meincnod ac mae modelau addas yn cael eu hadolygu. Y camau nesaf yw nodi cyllid priodol ar gyfer asesiad anghenion cynhwysiant iechyd penodol yn y Fro, cynnal yr asesiad a defnyddio'r canfyddiadau. Nododd LB y bydd mewn cysylltiad ag AG gan fod hon yn wybodaeth bwysig. Gofynnodd EH a oedd AG yn ymwybodol bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn rhedeg cerbyd ymateb iechyd meddwl yn Ne Ddwyrain Cymru gydag ymarferydd iechyd meddwl a thechnegydd meddygol, a nododd y gallai fod gorgyffwrdd â'u gwaith. Nododd EE fwllch ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth hyn a bod angen y cynnydd, bydd y cwmpas yn datblygu wrth i ni ddysgu beth sy'n gweithio/nad yw'n gweithio. Nododd MO fod y grwpiau a drafodwyd hefyd yn ddemograffeg risg y gwasanaeth tân ac mae'n dweud bod cyfle i gydweithio. Nododd HM y byddai'n ddiddorol cynnal ymarfer tebyg yn y Fro gan y gallai roi lefel arall o fewnwelediad i ychwanegu at yr ymagwedd at bethau fel Asesiad Llesiant y BGC.	
6.	Y Fro 2030 (Cynllun Corfforaethol Cyngor y Fro 2025-30) - Rob Thomas, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg Y Fro 2030 - Cynllun Corfforaethol Esboniodd RT fod Y Fro 2030 yn ei le fel y Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd newydd ac fe'i cymeradwywyd fis diwethaf. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cynnal digwyddiad lansio ar-lein ar 9 Mai ac mae gwahoddiadau wedi'u hystyn i'r holl bartneriaid.	

7.	Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (2025-29) – Lee Jones, Prif Weithredwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru <u>Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru</u> Esboniodd JL fod Cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd wedi'i gyhoeddi. Mae'r cynllun newydd yn cymryd golwg ehangach ar gyfrifoldebau ac yn canolbwyntio ar gyfiawnder. Pwysleisiodd JL bwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar y galw mewn cymunedau, beth yw'r materion pwysig, a beth yw'r gofynion polisi a deddfwriaethol. Esboniodd JL fod yr adolygiad cenedlaethol o'r dirwedd plismona wedi'i gynnwys yn meddylfryd y cynllun. Rhannodd dros 5,000 o bobl eu hadborth fel rhan o'r ymgynghoriad ac roedd dros 7,000 o ryngweithiadau. Mae'r cynllun yn mynd y tu hwnt i ymateb i droseddu ac mae'n anelu at adeiladu perthnasoedd cryf cynaliadwy gyda phobl leol a mynd i'r afael ag achosion troseddu trwy ddull ataliol. Esboniodd JL fod y Comisiynydd eisiau deall y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc a'r hyn sydd ei angen arnynt gan wasanaeth heddlu. Maent wedi ymrwymo i weledigaeth Strydoedd Mwy Diogel y llywodraeth a byddant hefyd yn dechrau blaenoriaethu troseddau ar-lein. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ynghylch diogelwch ar-lein ac atal troseddu. Mae cyfiawnder i ddioddefwyr a lleihau aildroseddu yn brif flaenoriaethau ochr yn ochr â sicrhau bod plismona yn addas ar gyfer y dyfodol i fynd i'r afael â mathau newydd o droseddu sy'n dod i'r amlwg. Amlinellodd JL fod gweithio gyda'r byd academiaidd yn dod yn faes allweddol ac archwilio effaith gwybodaeth anghywir a all achosi niwed ac sy'n anodd ei rheoli ar gyfer plismona. Maent yn anelu at gynhyrchu Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder Plant a Phobl Ifanc, Strategaeth Atal Troseddu a Lleihau Trais, Strategaeth Integredig Trais yn erbyn Menywod a Merched a Chynllun Lleihau Aildroseddau.	
8.	Gwiriadau Diogelwch Cartref – Brian Williams, Rheolwr Partneriaethau a Digwyddiadau, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Pwysleisiodd BW bwysigrwydd gwiriadau diogelwch tân yn y cartref. Bu cynnydd mewn marwolaethau tân yn ystod y misoedd diwethaf gyda 6 marwolaeth mewn tân yn 2024/25 a 5 ers mis Rhagfyr. Mae gan bartneriaid y sector cyhoeddus rôl wrth godi ymwybyddiaeth a chyfeirio pobl at Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) ar gyfer gwiriadau diogelwch tân yn y cartref. Mae ymchwiliadau mewnol yn aml yn datgelu cyfleoedd a gollwyd lle mae'r rhai a laddwyd mewn cysylltiad â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus/preifat ond nid ydynt yn cael eu cyfeirio at GTADC. Mae potensial i'r criwiau wneud gwahaniaeth sylweddol i leihau tanau a gwella goroesi. Nododd BW fod 27% o farwolaethau yn gysylltiedig ag ysmygu, oedran cyfartalog y rhai a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol yw 61, yr oedran cyfartalog ar gyfer marwolaethau yw 71, ac mae 50% o aelwydydd person sengl. Mae gwiriad diogelwch cartref yn wasanaeth am ddim ac yn syml i'w gynnal, felly lledaenu gwybodaeth yw'r flaenoriaeth.	

	Gofynnodd SG a oedd gan BW gysylltiadau â'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmysgu a nododd fod cyfle i gydweithio.	
9.	Diweddariad Bro Mwy Diogel – Deborah Gibbs, arweinydd Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Cyngor Bro Morgannwg Dywedodd DG fod gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Bro Morgannwg ar ddiogelwch cymunedol. Amlinellodd ddarn mawr o waith, y Dyletswydd Trais Difrifol. Y Barri, Penarth, Y Rhws a Llanilltud Fawr yw'r prif ardaloedd sy'n peri pryder, yn enwedig o amgylch y Rhws nad oedd yn cael ei nodi o'r blaen fel ardal sy'n peri pryder. Mae yna thema o drais ieuenctid yn y Fro ac mae angen data i helpu i ddefnyddio adnoddau a phrosiectau i'w liniaru. Esboniodd DG fod gwaith yn cael ei wneud i dynnu data o wahanol dimau - fel y tîm addysg lle mae gwaharddiadau yn aml yn gysylltiedig â thrais. Maent yn edrych i archwilio cyfleoedd o amgylch trais ieuenctid a phrosiectau treial. Unwaith y bydd ganddynt ddarlun mireinio, bydd y PDC yn hysbysu'r BGC o'r canfyddiadau. Hysbyswyd eu bod yn cyhoeddi adroddiadau ar y prif bwyntiau misol.	
10.	Unrhyw fater arall Hysbysodd HM fod y Blaengynllun wedi'i gylchredeg. Yng nghyfarfod nesaf y BGC ym mis Gorffennaf, bydd yn ofynnol penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y BGC. Hysbysodd EM fod cyllid CFfG o £30,000 wedi'i gyflawni i ddod ag ymgynghorydd i gynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd, y bydd yr holl bartneriaid yn cymryd rhan ynddo. Mae Adroddiad Blynyddol y BGC hefyd yn agosáu, a bydd partneriaid perthnasol yn derbyn e-byst yn gofyn am ddiweddariadau.	
11.	Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9 Gorffennaf 2025	